

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Cybi

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg



Mae gan arweinwyr Ysgol Cybi weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n gytûn gan yr holl staff. Rhoddir ffocws cadarn ar sicrhau bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn cydweithio'n bwrpasol i gynnig y cyfleoedd a phrofiadau gorau posibl i bob disgybl. Mae arweinwyr yn gweithio'n ddiwyd i adeiladu tîm o staff sydd â disgwyliadau uchelgeisiol i'r disgyblion. Maent yn herio'r staff a'i gilydd yn gyson i sicrhau gwelliant parhaus ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.



Mae effaith yr arweinyddiaeth gadarn yn cael ei gweld ar draws yr ysgol. Mae'r addysgu yn dda ym mron bob un o'r gwersi. Mae'r athrawon yn hyderus yn eu gallu i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol sydd yn ennyn diddordeb bron bob disgybl. Mae gan yr holl staff berthynas agos a chynnes gyda'r disgyblion. Maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch, sydd yn creu awyrgylch gynhwysol a gofalgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion y disgyblion yn eu gofal. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi anghenion lles, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion ac i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth a roddir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys yn arbennig o dda.



Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron bob un disgybl yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn trin eu gilydd ac oedolion gyda pharch. Mae gan bron bob un disgybl agwedd bositif at yr ysgol. Maent yn mwynhau bywyd ysgol ac yn dangos boddhad yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu bron bob un o'r medrau yn dda. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau rhif a digidol y disgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn llwyddo i gymhwyso'r medrau hyn yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd wrth weithio o fewn eu hardaloedd, ac ym Mlwyddyn 6, maent yn trin a thrafod eu syniadau'n aeddfed wrth weithio gyda'u partneriaid trafod neu grwpiau. Fodd bynnag, yn aml iawn, mae mwyafrif y disgyblion yn tueddu i droi i'r Saesneg yn rhy gyflym wrth weithio o fewn eu grwpiau, heb ymdrechu i ddyfalbarhau yn y Gymraeg. Mae medrau darllen Saesneg disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant. Er hyn, ar y cyfan, mae medrau darllen Saesneg disgyblion hŷn yr ysgol yn gryfach yn y Saesneg na'r Gymraeg.

# Argymhellion

**A1 Datblygu medrau Cymraeg y disgyblion**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag Ysgol Ofalgar, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cybi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Eglwys yng Nghymru dan Reolaeth Wirfoddol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 444 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 340 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 44 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 27.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 16.1%) | 35% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 20% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yn berthnasol) | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022